


# Neilltuo amser ar gyfer natur 2020

## Cynllun diwygiedig Dŵr Cymru ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth

Rhagfyr 2020

# Rhagair

Mae sicrhau amgylchedd naturiol iach a chynaliadwy yn allweddol i gefnogi llesiant ein cwsmeriaid ac mae'n sail i bob agwedd ar ein heconomi a'n hiechyd fel cenedl.

Rydym yn wynebu argyfwng bioamrywiaeth yng Nghymru, lle mae'r amgylchedd a rennir gennym dan fygythiad. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn chwarae ein rhan i gynnal a gwella iechyd ein hamgylchedd. Fel y disgrifir yn y ddogfen hon, mae Dŵr Cymru eisoes yn helpu i gynnal natur drwy'r ffordd y cyflawnir ein swyddogaethau. Er enghraifft, rydym yn chwarae rhan amlwg yn y broses o helpu mwy o afonydd Cymru i gyflawni Statws Ecolegol Da (fel y nodir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) gyda £200m o fuddsoddiad dros y 5 mlynedd nesaf er mwyn gostwng lefelau maetholion yn ein gollyngiadau.

Rydym wrthi'n diweddaru ein dogfen weledigaeth "Dŵr Cymru 2050" er mwyn paratoi ar gyfer y cylch nesaf o gynllunio buddsoddiadau yn 2024, i sicrhau bod ein buddsoddiadau yn diwallu anghenion hirdymor ein cwsmeriaid a'r amgylchedd. Bydd ein Gweledigaeth wedi'i gosod o fewn y cyd-destun hirdymor y bydd Dŵr Cymru yn gweithredu ynddo mewn blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn cynnwys sawl cam gweithredu fel y nodir yn y cynllun hwn, a fydd yn cefnogi bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn uniongyrchol. Yn fwy uniongyrchol, rydym yn gwneud cynnydd gyda £20m o fuddsoddiad gan gydweithio â phartneriaid ym Mannau Brycheiniog, i sicrhau ansawdd dŵr gwell, a thrwy hynny gobeithio y gwelir gwelliannau sylweddol mewn bioamrywiaeth yn lleol. Yn yr un modd, ar y cyd â'n rheoleiddiwr, Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym yn buddsoddi mwy na £20m i ddatblygu cynlluniau i reoli cynlluniau adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, a hynny er mwyn gwella'r amgylchedd a bioamrywiaeth, i'w cwblhau erbyn 2025.

Mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru wedi defnyddio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i osod dyletswydd gryfach o ran bioamrywiaeth ar Dŵr Cymru a sawl sefydliad arall yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd hon a rennir yn atgyfnerthu'r neges y bydd helpu natur i ffynnu yn gofyn am ymdrech ar y cyd gan amrywiaeth o sefydliadau yng Nghymru, yn cynnwys Llywodraeth Cymru ei hun, Cyfoeth Naturiol Cymru ac asiantaethau eraill y llywodraeth, yn ogystal â busnesau wedi'u rheoleiddio fel ni.


Mae Dŵr Cymru yn gwmni sy'n ymrwymedig i wneud y peth iawn. Credaf fod yn rhaid i Dŵr Cymru barhau i chwilio am gyfleoedd i wneud popeth posibl i gefnogi bioamrywiaeth Cymru yn y byrdymor a'r tymor hwy, wrth i ni gyflawni ein gwaith beunyddiol o gynnal a chadw gwasanaethau hanfodol ar gyfer ein cwsmeriaid am bris y gallant ei fforddio.

Gwyddom o'n harolygon parhaus sy'n ymgysylltu â chwsmeriaid fod cwsmeriaid ledled ein hardal gyflenwi yn disgwyl ac yn awyddus i ni wella bioamrywiaeth a'r amgylchedd yn gyffredinol, yn enwedig am fod hyn yn cyfrannu at lesiant y cymunedau a wasanaethwn. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r gwaddol amgylcheddol y byddwn yn ei adael i genedlaethau'r dyfodol, fel y dangosir yn ein dogfen weledigaeth "Dŵr Cymru 2050".

Mae'n rhaid mai ein blaenoriaeth bennaf bob amser yw cyflenwi dŵr yfed a gwasanaethau gwastraff dŵr o safon uchel i'n cwsmeriaid am bris fforddiadwy. O fewn hynny, mae'r cynllun hwn yn nodi'r modd rydym yn ymateb i'r heriau a wynebwn drwy gyflawni mwy a mwy o'n swyddogaethau mewn modd sy'n cefnogi bioamrywiaeth yn glir, fel bod yr amgylchedd y byddwn yn ei drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol yn cefnogi amrywiaeth gyfoethog o fywyd gwyllt a phlanhigion i'w dathlu a'u trysori.



**Peter Perry**
Prif Swyddog Gweithredol



# Pwy ydyn ni?

Dŵr Cymru Cyfyngedig (Dŵr Cymru) yw'r ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth statudol sy'n cyflenwi mwy na thair miliwn o bobl yng Nghymru a rhai rhannau cyffiniol o Loegr. Glas Cymru sy'n berchen arnom, sef cwmni un diben heb gyfranddalwyr, a gaiff ei redeg er budd cwsmeriaid yn unig. Rydym yn darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i'n cwsmeriaid drwy gyflenwi eu dŵr yfed ac yna gludo eu dŵr gwastraff ymaith a'i drin. Yn y modd hwn rydym yn gwneud cyfraniad mawr i iechyd y cyhoedd ac i'r gwaith o ddiogelu amgylchedd Cymru. Mae ein gwasanaethau yn hanfodol hefyd i ddatblygiad economaidd cynaliadwy yng Nghymru.

# Pam mae angen cynllun arnom?

O dan Adran 6(6) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 mae'n ofynnol i'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Dŵr Cymru, baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i gydymffurfio â'u dyletswydd o dan Adran 6(1) i "geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol".

Yn 2017, gwnaethom gyhoeddi ein cynllun statudol cyntaf o dan y Ddeddf, "Neilltuo amser ar gyfer natur", gan nodi ymrwymiadau penodol i fioamrywiaeth wrth i ni fynd ati i ddarparu ein gwasanaethau hanfodol i'n cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Gwnaethom adrodd ar y cynnydd a wnaed o ran ein hymrwymiad yn "Gwneud y peth iawn dros natur", adroddiad a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2019, fel sy'n ofynnol o dan Adran 6(7) o Ddeddf 2016.

Mae'r Cynllun hwn yn ddiwygiad o gynllun gwreiddiol 'Neilltuo amser ar gyfer natur' a gyhoeddwyd yn 2017 i fyfyrio ar y cynnydd a wnaed gennym erbyn diwedd 2019 ac i dynnu sylw at ein hymrwymiad parhaus i wella a chynnal bioamrywiaeth wrth gyflawni ein swyddogaethau.

# I bwy mae'r cynllun?

Rydym yn gobeithio y bydd y Cynllun hwn o ddiddordeb i sawl cynulleidfa, gan gynnwys:

- Unrhyw un sydd am gael gwybodaeth ynglŷn â sut mae Dŵr Cymru yn cyflawni ei ddyletswydd gryfach o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016;
- Sefydliadau, er enghraifft, grwpiau yn y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol, sy'n chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â Dŵr Cymru i gyflwyno mentrau a fydd yn helpu bioamrywiaeth;
- Cydweithwyr ym mhob rhan o Dŵr Cymru sy'n awyddus i ddysgu am ein rôl yn y gwaith o gynnal bioamrywiaeth ac, yn benodol, i wybod sut y gallwn oll neilltuo amser ar gyfer natur wrth i ni ymgymryd â'n gwaith bob dydd o ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff hanfodol i'n cwsmeriaid.

# Beth mae ein Cynllun diwygiedig yn anelu at ei gyflawni?

Gan weithio tuag at yr amcanion statudol sy'n ymwneud â cheisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth gyflawni ein swyddogaethau yn ogystal â hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau wrth arfer ein swyddogaethau, nod y Cynllun statudol hwn fydd:

1. Gwella dealltwriaeth cydweithwyr a chwsmeriaid ymhellach o'r modd y mae ein busnes yn rhyngweithio'n gadarnhaol â natur, gan adlewyrchu'r ymrwymiadau a wnaed yn ein cynllun busnes ar gyfer 2020-2025 a'n 'Gweledigaeth ar gyfer 2050'.
2. Parhau i godi ymwybyddiaeth ymysg cydweithwyr o fewn Dŵr Cymru, ein partneriaid a'n cadwyn gyflenwi ynghylch ein rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â natur a'u rôl i'w cyflawni, ynghyd â'u hannog i wneud y pethau cywir ar gyfer natur wrth iddynt wneud eu gwaith o ddydd i ddydd.
3. Cefnogi mwy o ganlyniadau cynaliadwy wrth i ni gyflawni ein swyddogaethau, yn ogystal â chwilio am syniadau arloesol er mwyn helpu i gyflawni ein dyheadau ar gyfer bioamrywiaeth.
4. Nodi camau gweithredu penodol i gyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau, fel rhan o'n buddsoddiad, rhwng nawr a 2025. Byddwn yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn 2022.
5. Galluogi Dŵr Cymru i gyfrannu at ymdrech Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'r fioamrywiaeth a gollir, y ddwy her gysylltiedig a nodir gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR).

Byddwn hefyd yn ystyried y canlynol wrth barhau i fynd ati i gyflwyno'r Cynllun hwn:

- Effaith pandemig y coronafeirws, sut y gallwn helpu pobl i ailgysylltu â natur, yr oedi posibl wrth gyflwyno ein Cynllun ac unrhyw heriau yn y dyfodol.
- Bydd Brexit yn digwydd yng nghyfnod yr adroddiad hwn (2019-2022). Byddwn yn ystyried unrhyw heriau a all ddeillio o hyn mewn perthynas â chyflawni ein swyddogaeth graidd a'r effaith ar ein dyletswydd statudol.
- Ein hysbysiad penderfyniad presennol gan Ofwat, sef AMP 7 oedd yr un mwyaf heriol hyd yma. Byddwn yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldeb amgylcheddol a'n dyletswydd statudol yn ystod y cyfnod heriol hwn.
- Yn olaf, byddwn yn dechrau blaengynllunio ar gyfer AMP 8 gan egluro sut rydym yn gobeithio gwella bioamrywiaeth ymhellach drwy gyflawni ein swyddogaethau yn ystod y cyfnod hwn, i sicrhau y gellir dyrannu cyllid digonol at y diben hwn.

**Wrth i ni barhau i wneud cynnydd gyda'n gwaith o wella a chynnal ein bioamrywiaeth, gwyddom na allwn wneud hyn ar ein pen ein hunain. Rydym yn parhau i groesawu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth fel y gallwn helpu i gyflawni'r nod a rennir gennym o sicrhau amgylchedd naturiol cynaliadwy. Mae pob un ohonom yn byw ac yn gweithio yn y gymuned a wasanaethir gennym. Gyda'n gilydd gallwn gael effaith fawr ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.**

# Pryd y caiff ei gyflawni?

Mae amserlen ar gyfer cyflawni pob un o'n 30 o ymrwymiadau yn y cynllun hwn. Mae rhai o'r rhain yn rhai byrdymor a gaiff eu cyflawni erbyn yr adroddiad nesaf yn 2022. Mae rhai eraill yn ymrwymiadau tymor canolig i hirdymor gyda'r nod o ddylanwadu ar newidiadau cadarnhaol tymor hwy erbyn diwedd y cylch buddsoddi presennol (2025) a thu hwnt.

Yn 2022, byddwn yn cyhoeddi adroddiad i rannu'r cynnydd a wnaed o ran yr ymrwymiadau yn y cynllun hwn. Ar yr adeg honno, mae'n rhaid i ni adolygu ein Cynllun, er y gallwn ei ddiwygio unrhyw bryd fel y gwelir yn y ddogfen hon. Yn ein Cynllun nesaf, byddwn yn achub ar y cyfle i gynnal adolygiad trylwyr o'r camau gweithredu a geir yn y ddogfen hon, ein llwyddiant i'w cyflawni, eu heffeithiolrwydd a meysydd lle y gallem wneud ymrwymiadau newydd o bosibl i gymryd camau gweithredu yn y dyfodol.

# Sut y byddwn yn gwybod ei fod yn llwyddo?

Byddwn yn parhau i olrhain y cynnydd a wneir drwy gydol cyfnod yr adroddiad a byddwn yn rhannu hyn yn yr adroddiad nesaf a gyhoeddir gennym yn 2022.

Yng nghyfnod yr adroddiad hwn byddwn yn archwilio ffyrdd newydd o fesur y modd rydym yn cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth. Mae'n debygol y gwneir hyn drwy gymysgedd o fesurau ansoddol a meintiol. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid y Gynghrair Cyfalaf i sicrhau cysondeb yn ein dulliau adrodd ar draws y busnes.

# Cysyniadau allweddol



# Beth yw bioamrywiaeth?

Mae 'bioamrywiaeth' yn ffurf gryno ar **amrywiaeth fiolegol**. Mae Deddf 2016 yn diffinio "bioamrywiaeth" fel "amrywiaeth organeddau byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth neu ecosystem". Rydym wedi ystyried yn benodol amrywioldeb cynefinoedd wrth ddehongli'r ddyletswydd hon. Mae pobl yn cael llawer o bleser ac ymdeimlad cryf o lesiant wrth ryngweithio â natur – yn cynnwys ei ecosystemau amrywiol – sy'n rhywbeth rydym yn ei ystyried wrth gyflawni ein dyletswydd.



# Beth yw cydnerthedd Ecosystemau?

**Cydnerthedd** yw'r gallu i addasu i amgylchiadau anffafriol neu adfer o amgylchiadau anffafriol. Mewn byd o newid a phwysau dynol parhaus ar yr amgylchedd, mae gwarchod bioamrywiaeth ac ecosystemau iach yn debygol o ddibynnu ar allu poblogaethau o rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau i wrthsefyll newid o'r fath.

Mae Deddf 2016 wedi nodi pum agwedd gydgysylltiedig ar gydnerthedd ecosystemau:

**Amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt**
Un mesur syml fyddai nifer y rhywogaethau brodorol mewn ardal benodol, megis un o safleoedd Dŵr Cymru, neu Gymru gyfan.

**Y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt**
Mae hyn yn cydnabod y rhyngddibyniaeth rhwng gwahanol rywogaethau a gwahanol gynefinoedd, megis yr effaith y gall tirwedd a defnydd tir ei chael ar rywogaethau afonol mewn dalgylch.

**Graddfa ecosystemau**
Graddfa cynefinoedd a dosbarthiadau o rywogaethau.

**Cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad)**
Un mesur syml o gyflwr corff dŵr fyddai a yw wedi cael ei ddosbarthu'n Statws Ecolegol Da neu Uchel gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE, gan fod y dosbarthiad hwnnw yn cwmpasu sawl elfen sy'n berthnasol i iechyd biolegol gwahanol fathau o gyrff dŵr.

**Gallu ecosystemau i addasu**
Mae hwn yn debyg i 'gydnerthedd' ac felly'n deillio o'r pedwar priodoledd arall.

Bydd llawer o'r camau gweithredu a gynhwysir yn y cynllun hwn yn parhau i hyrwyddo agweddau ar gydnerthedd ecosystemau. Gallai'r rhain gynnwys, er enghraifft:

- Gweithio drwy'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, gan helpu i sicrhau y gall amodau yn ein hamgylchedd dŵr gynnal pysgod, anifeiliaid di-asgwrn-cefn a rhywogaethau eraill, gan gynnwys eu symudiad o fewn afonydd, a thrwy hynny sicrhau mwy o gysylltedd rhwng ecosystemau, ynghyd â'u gallu i fridio.
- Dynodi ardaloedd i dyfu rhywogaethau peillio ar ein safleoedd gweithredol a'n safleoedd ynni er mwyn annog a chefnogi cysylltedd ecolegol. Bydd ein gwaith parhaus i reoli a dileu Rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) hefyd yn helpu tuag at gyflawni hyn.

# Beth yw rhywogaethau a chynefinoedd 'â blaenoriaeth'?

Mae pob rhywogaeth a chynefin brodorol yn bwysig, o ran eu cyfraniad tuag at fioamrywiaeth, gweithrediad ecosystemau a'u hawl gynhenid i fodoli. Fodd bynnag, at ddibenion cadwraeth bioamrywiaeth wedi'i thargedu, mae arbenigwyr wedi blaenoriaethu'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hynny yr ystyrir eu bod yn brin neu'n gweld dirywiad sylweddol o ran niferoedd, graddfa a/neu ddosbarthiad; sef y rhai hynny sydd o dan fygythiad ac felly y mae angen i ni weithredu nawr yn eu cylch. Mae'r rhain yn rhywogaethau ac yn gynefinoedd o bwys mawr er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth, ac maent wedi'u rhestru o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (i Gymru) ac Adran 41 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (i Loegr). Mae rhai rhywogaethau a chynefinoedd hefyd wedi'u diogelu'n gyfreithiol o dan Ddeddfau a Rheoliadau ar wahân.



# Beth yw argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth?


Ers i ni gyhoeddi ein hadroddiad cyntaf yn 2017, mae llawer o lywodraethau a chynghorau wedi datgan ein bod yn wynebu dwy her fawr gysylltiedig – argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth. Yn syml, mae hyn yn golygu na all natur fel rydym yn ei adnabod barhau o dan yr amodau presennol, a fydd wedyn yn cael effaith wrth i'r ecosystemau addasu, symud neu ddirywio.

Ni allwn fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth ar ein pen ein hunain. Byddwn yn defnyddio'r cynllun hwn i lywio ein hymdrechion o fewn Dŵr Cymru i fynd i'r afael â'r heriau sydd i ddod, ond byddwn hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid allanol a grwpiau cymunedol i gyflawni canlyniadau buddiannau lluosog. Cadarnhawyd yr argyfwng hwn hefyd gan Banel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) yn 2019 a chyfeiriwyd ato yn yr Adroddiad interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR).

Wrth baratoi ein cynllun rydym wedi ystyried nifer o gyhoeddiadau y byddwn yn parhau i'w dilyn yn agos wrth gyflawni ein canlyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y rhestr o rywogaethau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru (o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016).
- Yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (o dan Adran 8 o'r Ddeddf).
- Y Datganiadau Ardal (cyfeirir atynt yn adran 11 o'r Ddeddf).
- Cynllun Gweithredu Adfer Natur Llywodraeth Cymru. Yn ein cynllun gwreiddiol 'Neilltuo amser ar gyfer natur', rydym yn croesgyfeirio'r rhan fwyaf o'n hymrwymiadau at ganlyniadau a chamau gweithredu a restrir yn Rhan 2 o Gynllun Llywodraeth Cymru.

# Ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Diwygiedig – 30 o Ymrwymiadau



# Beth rydym yn ei wneud dros fioamrywiaeth?

Yn yr adran hon, byddwn yn archwilio ein 30 o ymrwymiadau diwygiedig a nodir yn ein cynllun gwreiddiol 'Neilltuo amser ar gyfer natur' a gyhoeddwyd yn 2017. Byddwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed gennym hyd yma a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud yn y dyfodol. Mae manylion llawn y cynnydd a wnaed hyd yma yn ein hadroddiad 'Gwneud y peth iawn dros natur' a gyhoeddwyd yn 2019.

Os cewch gyfle i ymuno â ni ar ein taith i gynnal a gwella bioamrywiaeth a mynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth a hinsawdd, cysylltwch â ni. Rydym bob amser yn chwilio am gyfleoedd i gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth – ni waeth pa mor fawr neu fach yw eich sefydliad. Rydym hefyd yn estyn croeso i grwpiau cymunedol ymuno â ni ar y daith hon.

Rydym wedi grwpio ein hymrwymiadau mewn chwe chategori – fodd bynnag, ein dull gweithredu diwygiedig mewn perthynas â'r Cynllun yw rhannu'n seilos ar draws y cwmni a chydweithio – yn cynnwys pob maes busnes, yn cynnwys swyddogaethau cymorth, er mwyn gweithio tuag at fynd i'r afael â'n cynllun gweithredu bioamrywiaeth.

# Ein gwasanaethau craidd: Cyflenwadau dŵr yfed

Fel ymgymerwr dŵr a charthffosiaeth statudol, mae ein gweithgareddau craidd wedi'u sbarduno gan ddau nod cyffredin: diogelu iechyd y cyhoedd a diogelu'r amgylchedd. Mae ein perthynas â'r amgylchedd naturiol yn rhan hollbwysig o'n busnes, felly mae sicrhau ein bod yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol a chynaliadwy yn rhan hanfodol o'r ffordd rydym yn gweithio.

## Cyflenwadau dŵr yfed

— Daw ein cyflenwadau dŵr yfed cyhoeddus – sy'n wasanaeth ecosystem allweddol – o 120 o ddalgylchoedd gwledig yn bennaf sy'n ymestyn dros bron 11,000km$^2$, nad yw'r rhan fwyaf ohonynt o dan ein perchenogaeth. Mae'r rhain yn tarddu o ddyfroedd wyneb – afonydd a chronfeydd dŵr – a dŵr daear mewn rhai ardaloedd.

— Ein cyfrifoldeb pwysicaf yw cyflenwi mwy na 800 miliwn litr o ddŵr yfed o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid bob dydd.

— Rydym yn gweithio'n agos gyda'n rheoleiddwyr amgylcheddol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, gan mai nhw sy'n pennu trwyddedau sy'n caniatáu i ni dynnu dŵr o'r cyrsiau dŵr hyn, gan ystyried effaith y rhain ar fflora a ffawna.

— Mae rhai o'n trwyddedau yn caniatáu i ni dynnu dŵr o afonydd a llynnoedd sy'n Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, sef dynodiad o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE. Mae'r Ardaloedd hyn yn rhan o rwydwaith ecolegol dros Ewrop gyfan o safleoedd "Natura 2000" i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd penodol â blaenoriaeth.

## Ymrwymiad 1

**Yn dilyn cyhoeddi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn 2019, byddwn yn parhau i ystyried yn benodol ein dyletswydd ynglŷn â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau pan fyddwn yn cynnal ein hadolygiad llawn nesaf o'n Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ar gyfer 2024.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Byddwn yn parhau i gyflwyno ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr diweddaraf (2019).

Rydym hefyd yn datblygu ein Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr i'w gyhoeddi yn 2024. Nod hwn fydd adnabod a mynd i'r afael ag unrhyw risgiau hirdymor i'n sefyllfa o ran cyflenwad a galw gan barhau i gysylltu â'n dyletswydd statudol o ran bioamrywiaeth.

Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth o rywogaethau estron goresgynnol (INNS) drwy drosglwyddo dŵr o un arall i'r llall i'w storio.

## Ymrwymiad 2

**Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rheoleiddwyr i wella ein dealltwriaeth o'r posibilrwydd y gall ein harferion ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) a'r goblygiadau cost posibl.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

— Rydym yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud ag INNS.

— Yn fewnol, rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o INNS drwy ymgyrchoedd cyfathrebu mewnol.

— Rydym yn parhau i gefnogi'r ymgyrch 'Gwirio, Glanhau, Sychu' ar bob safle perthnasol.

Mae Dŵr Cymru yn gwneud defnydd cynyddol o drefniadau rheoli dalgylchoedd fel y llinell amddiffyn gyntaf i ddiogelu ein cyflenwadau dŵr yfed. Cyflawnir hyn yn bennaf drwy ein rhaglen waith yn ein 23 o Barthau Diogelu a'n gwaith partneriaeth ym Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog. Mae'r rhain yn cael eu troi'n nifer o gamau gweithredu ymarferol wedi'u targedu a phrosesau ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y dalgylchoedd y tynnwn ein dŵr heb ei drin ohonynt. Ymhlith y rhain y mae ein menter flaenllaw PestSmart, sy'n adeiladu ar ein Cynllun Chwistrellau Chwyn llwyddiannus dros ben.

Menter gydweithredol yw PestSmart sy'n annog pobl ledled Cymru a'r ardaloedd cyffiniol o Loegr a wasanaethir gennym, i ystyried dulliau 'doethach' o reoli chwyn, plâu a chlefydau nad ydynt yn effeithio ar bobl, dŵr na bywyd gwyllt. Rydym yn cydweithio â defnyddwyr plaladdwyr a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r gadwyn gyflenwi er mwyn gostwng lefelau plaleiddiaid mewn dŵr ac yn yr amgylchedd ehangach. Dylai dull gweithredu o'r fath ein galluogi i ddefnyddio llai o gemegion a llai o ynni i drin dŵr yfed, sy'n newyddion da i'n cwsmeriaid yn ogystal ag i'r amgylchedd a'i fflora a'i ffawna.



**Astudiaeth achos**

# Pest Smart

Mae ansawdd cyflenwadau dŵr yfed cyhoeddus wedi'i reoleiddio'n dynn. Mae ein gwaith monitro ar y dalgylchoedd y daw ein cyflenwadau ohonynt yn dangos bod lefelau plaladdwyr yn cynyddu, sy'n rhwystro ein gallu i gyrraedd y safonau cyfreithiol llym sy'n gymwys i gyflenwadau dŵr yfed cyhoeddus.

Rydym yn gwybod bod gan blaladdwyr rôl hanfodol bob dydd wrth reoli chwyn, plâu a chlefydau. Fodd bynnag, os na chânt eu storio, eu defnyddio na'u gwaredu'n gywir, gallant gael effaith ddychrynllyd ar bobl, dŵr a bywyd gwyllt. Lansiodd Dŵr Cymru fenter – PestSmart – i annog ffermwyr, tyfwyr, rheolwyr tir a garddwyr ar draws yr ardaloedd a wasanaethir gennym i ystyried dulliau 'doethach' o weithio er mwyn diogelu dŵr a'r amgylchedd ehangach.

Ers 2015, rydym wedi bod yn cydweithio'n llwyddiannus â'r diwydiant ffermio i fynd i'r afael â'r broblem plaladdwyr sy'n datblygu mewn dalgylchoedd wedi'u targedu. Dangosodd y treialon hyn faint y risg, a'r cyfle i fabwysiadu dull gweithredu rhagweithiol a chydweithredol. Mae'r cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) wedi ein galluogi i ehangu ac ymestyn ledled y wlad.

## Ymrwymiad 3

**Yn dilyn ein dull gweithredu TarddLe, byddwn yn parhau i gydweithredu ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn y trydydd sector. Bydd hyn yn rhan o'n rhaglen waith ar gyfer ein 23 o Barthau Diogelu, fel y gallwn weithio gyda'n gilydd tuag at agenda gyffredin, i ostwng lefelau halogyddion megis lefelau plaladdwyr ac amonia yn yr amgylchedd, er mwyn diogelu ein cyflenwadau dŵr ac er budd bywyd gwyllt.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Parhau i ddefnyddio dull gweithredu 'TarddLe' i reoli dalgylchoedd.
Mae hyn yn cynnwys:

- Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid.
- Datblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer ein 23 o Barthau Diogelu.
- Parhau â'n treial Chwistrellau Chwyn sydd wedi bod yn llwyddiannus dros ben a'n cynllun gwaredu plaladdwyr.
- Buddsoddiad o £20m ym Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog i wella ansawdd dŵr sy'n dod i'n cronfeydd dŵr a'n hafonydd y byddwn yn tynnu dŵr ohonynt.

Yn ei Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfeirio at y manteision lluosog y mae gorchudd coetir cynyddol yn eu cynnig i gynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau.

Rydym yn cydnabod y gall mynediad at natur wella llesiant pobl a'i fod yn cefnogi agenda llesiant ehangach Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi dod yn bwysicach fyth o ganlyniad i bandemig COVID-19 lle mae cwsmeriaid a chydweithwyr wedi defnyddio natur fel ffordd o hybu iechyd a llesiant. Er ein bod bob amser yn rhoi'r flaenoriaeth bennaf i iechyd a diogelwch ein staff a'r cyhoedd, rydym yn annog ymwelwyr i fwynhau ein hasedau, megis ein cyfres o gronfeydd dŵr ym Mannau Brycheiniog.

**Astudiaeth achos**

## Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog

Sefydlwyd rhaglen Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog i nodi a threialu ffyrdd newydd o weithio ledled Bannau Brycheiniog er mwyn deall problemau o ran ansawdd dŵr, eu lleihau neu eu hatal rhag effeithio ar y dalgylchoedd. Fodd bynnag, rydym yn deall bod llawer o'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella ansawdd dŵr yn ategu'r camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni buddiannau eraill fel amaethyddiaeth fwy cynaliadwy neu adfer natur. Rydym hefyd yn deall bod Bannau Brycheiniog yn fega-ddalgylch i bawb, nid dim ond ar gyfer ansawdd dŵr, ac ni allwn gyflawni'r buddiannau lluosog hyn ar ein pen ein hunain.

Mae tîm rhaglen Mega-ddalgylch Bannau Brycheiniog sydd newydd gael ei sefydlu yn cydweithio ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i archwilio cyfleoedd i ymgysylltu'n fwy ac i ddatblygu treialon cydweithredol ar lawr gwlad ledled y Bannau. Credwn y gallwn wneud mwy drwy gydgysylltu ein hadnoddau, na thrwy weithio ar ein pen ein hunain.

Un o'r enghreifftiau cynnar oedd y cais llwyddiannus am arian i ddatblygu prosiect cydgysylltu cymunedol wedi'i leoli yn nalgylch Pontsticill i dargedu gwelliannau i systemau tanciau dŵr a thanciau septig preifat, yn ogystal â chydweithio â'r gymuned i gynnal nifer o weithgareddau i wella'r amgylchedd lleol er budd natur a phobl. Caiff gwersi a ddysgwyd o brosiect Pontsticill a phrosiectau cydweithredol eraill a gaiff eu datblygu o dan Fega-ddalgylch Bannau Brycheiniog eu cyflwyno ar draws dalgylchoedd dŵr eraill ledled y Bannau a gweddill Cymru dros y blynyddoedd nesaf.

## Ymrwymiad 4

**Byddwn yn parhau i gydweithredu â'n rhanddeiliaid i sicrhau y bydd prosesau dylunio a rheoli coedwigoedd a choetir yn gwarchod tir rhag erydu a thirlithriadau yn ogystal â chyflawni buddiannau lluosog. Wrth ddewis rhywogaethau i'w plannu, byddwn yn ystyried sut i sicrhau'r budd mwyaf i fioamrywiaeth.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Rydym wedi cyflwyno nifer o gynlluniau plannu coed yn ein dalgylchoedd dŵr yfed strategol bwysig. Ymhlith y rhain mae Talybont a Chantref. Yn y dyfodol byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid i gyflwyno mwy o gynlluniau.

Ymhlith ein daliadau tir mae ein pedair prif ganolfan i ymwelwyr ar ein safleoedd cronfeydd dŵr yn Elan; Llys y Frân; Llyn Brenig; a Llandegfedd. Mae'r holl safleoedd hyn yn gynefinoedd arwyddocaol ynddynt eu hunain. Ar wahân i Lys-y-Frân, maent i gyd yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n cydnabod eu pwysigrwydd o ran cadwraeth. Rydym yn ceisio rheoli'r safleoedd mewn ffordd sy'n ystyriol o natur felly, er enghraifft, rydym yn cau rhan o safle Llandegfedd am ychydig fisoedd bob blwyddyn er mwyn diogelu adar dŵr sy'n gaeafu.

**Astudiaeth achos**

## Rydym yn parhau i ddysgu gwersi – Torri Coed yng Nghronfeydd Dŵr Llanisien a Llys-faen 2020

Yr haf hwn, gwnaethom gael gwared ar nifer o goed o ardal Cronfeydd Dŵr Llanisien a Llys-faen. Ni wnaethom gyfathrebu'n ddigon cyflym â'n cwsmeriaid mewn perthynas â'r gwaith hwn, a arweiniodd at nifer o gwynion. Ymddiheurwn am unrhyw ofid a achoswyd a byddwn yn dysgu o hyn yn y dyfodol. Gwnaed y gwaith yn ystod y tymor nythu dan oruchwyliaeth ecolegydd – a gwnaed pob ymdrech i ymyrryd cyn lleied â phosibl. Gwnawn bob ymdrech i warchod bioamrywiaeth ac ecoleg ar safleoedd. Fodd bynnag, rhaid i ni hefyd sicrhau diogelwch ein cyflogeion a'n cwsmeriaid yn ogystal â swyddogaeth barhaus ein busnes craidd.

Rydym yn annog yr aelodau o'r cyhoedd sy'n dod i'n canolfannau i ymwelwyr i ddysgu am yr amgylchedd naturiol felly mae'r safleoedd hyn yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau i bob oedran a gallu megis pyllau chwilota, gwylio adar a theithiau cerdded tywys natur.

## Ymrwymiad 5

**Byddwn yn chwilio am gyfleoedd newydd yn ein canolfannau i ymwelwyr i gynnal natur ac ennyn diddordeb y cyhoedd yn yr amgylchedd naturiol.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd newydd yn ein canolfannau i ymwelwyr i gynnal natur ac ennyn diddordeb y cyhoedd yn yr amgylchedd naturiol. Bydd prosiectau sy'n mynd rhagddynt ar safleoedd i wella a chynnal bioamrywiaeth yn Llandegfedd, Llyn Brenig a Chwm Elan yn parhau.

Ymysg y datblygiadau newydd yng nghyfnod yr adroddiad hwn bydd prosiect Llys-y-Frân, a phrosiect Llys-faen a Llanisien.

# Ein gwasanaethau craidd: Trin dŵr gwastraff a rheoli dŵr wyneb

## Ein gwasanaethau dŵr gwastraff

- Mae rhan helaeth o'n gwaith yn ymwneud â thrin dŵr gwastraff a rheoli dŵr wyneb cyn ei ddychwelyd i ddyfroedd mewndirol ac arfordirol. Mae hyn nid yn unig yn cadw pobl yn ddiogel rhag dŵr halogedig a llifogydd, ond mae hefyd yn diogelu bywyd gwyllt ac yn ei helpu i ffynnu yn ei amgylchedd naturiol.
- Byddwn yn parhau i ymdrechu i fodloni'r trwyddedau y mae ein rheoleiddwyr wedi'u pennu i lywodraethu ein gollyngiadau.
- Byddwn hefyd yn gweithio tuag at ddileu achosion o lygredd a achosir gan ein gweithgareddau. Os byddwn yn gwneud camgymeriad, byddwn yn chwilio am ffyrdd o unioni'r difrod a/neu ddod o hyd i ganlyniadau adeiladol eraill i'r amgylchedd.
- Mae gan lawer o'r afonydd a'r moroedd o amgylch yr ardaloedd a wasanaethir gennym lefel uchel o ddiogelwch. Er enghraifft, mae tua 70% o ddyfroedd mewndirol Cymru wedi'u dynodi er mwyn cydnabod eu pwysigrwydd o ran cadwraeth.

Yn ystod y degawdau diwethaf, mae Dŵr Cymru wedi buddsoddi arian ein cwsmeriaid mewn llawer o gynlluniau i leihau effaith ein gollyngiadau ar y dyfroedd derbyn – mewndirol, aberol ac arfordirol; amcangyfrifwn ein bod wedi gwario dros £1 biliwn ar ddyfroedd arfordirol yn unig.

Prif fesur yr amgylchedd dyfrol yw'r system ddosbarthu a gyflwynwyd o dan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE, sy'n cynnig mesur cynhwysfawr o ansawdd, gan gynnwys iechyd ecolegol: dylai corff dŵr sydd wedi'i ddosbarthu'n Statws Ecolegol Uchel neu Dda gynnal ecosystemau iach.

Yn 2015 dangosodd y canlyniadau dosbarthu a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru fod 39% o gyrff dŵr wyneb Cymru o Statws Ecolegol Da. Caiff y canlyniadau diweddaraf eu cyhoeddi maes o law a fydd yn rhoi syniad i ni o ble y dylem ganolbwyntio ein hymdrechion nesaf.

Mae Dŵr Cymru yn dal i gyfrannu at rai o fethiannau cyrff dŵr i gyflawni Statws Ecolegol Da. Er enghraifft, gall lefel y ffosfforws neu amonia mewn peth o'r dŵr a ryddhawn i ddyfroedd mewndirol gyfrannu at fethiant cyrff dŵr derbyn i gyrraedd safonau gofynnol ar gyfer bywyd gwyllt. Yng ngoleuni canfyddiadau ymchwiliadau a gynhaliwyd gennym ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod 2010-2015, mae ein rhaglen fuddsoddi pum mlynedd flaenorol a ddaeth i ben eleni (2015-2020) yn cynnwys rhaglen o welliannau gwerth £60m a oedd yn fuddiol i tua 130 cilometr o afonydd.

## Ymrwymiad 6

**Byddwn yn cwblhau ein rhaglen fuddsoddi bresennol gwerth £60 miliwn ar gyfer 2015-2020 y cytunwyd arni ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru i wella ein gollyngiadau mewn 13 o weithfeydd trin dŵr gwastraff drwy, er enghraifft, ostwng lefelau ffosfforws er budd yr ecoleg yn y dyfroedd derbyn (erbyn mis Rhagfyr 2020).**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith hwn wedi'i gwblhau. Mae effaith COVID-19 wedi arwain at oedi gwaith i wella'r safleoedd sy'n weddill. Fodd bynnag, cytunwyd gyda'n rheoleiddiwr amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru i ymestyn y rhaglen i fis Mawrth 2021.

Rydym bellach yn gweithio i gyflawni ein rhaglen AMP 7, sy'n cynnwys £200m o fuddsoddiad er mwyn gostwng lefelau ffosffad ymhellach mewn gollyngiadau o weithfeydd trin dŵr gwastraff dethol.

## Ymrwymiad 7

**Byddwn yn parhau gyda'n hymchwil i effeithiolrwydd rhai prosesau trin newydd i leihau ffosfforws yn ein gollyngiadau.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Byddwn yn parhau i archwilio dewisiadau amgen i gemegion mewn dognau ar ein safleoedd gweithredol fel gwlyptiroedd a adeiladwyd ar gyfer tynnu ffosfforws, oherwydd gall y rhain fod yn fuddiol i fioamrywiaeth.

Rydym yn parhau i gynnal ymchwiliadau pellach er mwyn deall ein heffaith ar yr amgylchedd dŵr. Yn AMP6 (2015-20) gwnaeth ein hymchwiliadau hi'n bosibl i fodelau cyfrifiadurol pwrpasol newydd gael eu datblygu, gan ddisgrifio sut mae dyfroedd arfordirol yn symud o dan ddylanwad llanwau, gwynt a llif afonydd a sut y caiff llygredd ei wasgaru a'i wanhau yn yr amgylchedd morol. Mae'r modelau hyn wedi galluogi Dŵr Cymru i dargedu buddsoddiadau yn y dyfodol lle y gall sicrhau'r budd mwyaf o ran ansawdd dŵr mewn dyfroedd ymdrochi a dyfroedd pysgod cregyn. Rydym hefyd wedi sicrhau bod y modelau a'r data ar gael i reoleiddwyr, gan ddarparu modd i asesu effaith sectorau eraill yn ogystal â'n sector ein hunain, ac ymchwilio i heriau eraill megis newid yn yr hinsawdd, datblygu arfordirol a thwf mewn poblogaeth.

## Ymrwymiad 8

**Byddwn yn cwblhau ein rhaglen bresennol o ymchwiliadau i'n heffaith mewn 76 o gyrff dŵr mewndirol. Os cadarnheir mai ni yw'r prif reswm pam nad yw corff dŵr yn cyrraedd Statws Ecolegol Da byddwn (erbyn 2019) yn cytuno ar raglen o welliannau y dylem eu gwneud yn ystod 2020-2025. Yn ogystal â chwblhau'r rhaglen hon, byddwn yn parhau â'r gwaith hwn drwy ymchwiliadau eraill.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Mae'r elfen hon o'r gwaith wedi'i gwblhau. Byddwn yn parhau i gynnal, neu lle y bo'n bosibl, i wella statws ecolegol cyrff dŵr drwy nifer o ymchwiliadau yng nghyfnod yr adroddiad hwn. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, astudiaethau peilot a rhaglenni gwaith ar rywogaethau estron goresgynnol. Byddwn hefyd yn archwilio atebion sy'n seiliedig ar natur gan ddefnyddio gwlyptiroedd i dynnu ffosfforws.

## Ymrwymiad 9

**Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i addysgu ein cwsmeriaid ynglŷn â'r difrod y gall camddefnyddio carthffosydd ei achosi, gan gynnwys i fywyd gwyllt morol.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

- Byddwn yn parhau i hyrwyddo ein hymgyrch 'Stop Cyn Creu Bloc' sydd wedi bod yn rhedeg ers 2013 gyda'r nod o leihau nifer y blociadau mewn carthffosydd a all achosi llifogydd ac achosion o lygredd sy'n arwain at niwed i'r amgylchedd.
- Nod ein hymgyrch ddiweddaraf, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2020, yw dylanwadu ar ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru i gynnwys weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn ei rhestr o eitemau arfaethedig i gael eu gwahardd.

## Ymrwymiad 10

**Byddwn yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i annog ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â'r holl bwysau sy'n effeithio ar gyrff dŵr penodol, gan gynnwys ein heffeithiau.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

- Rydym yn parhau i gefnogi Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr agenda hon yn cynnwys mynychu cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Fforwm Dŵr Cymru, ymdrechion dalgylchoedd ar ochrau dŵr glân a dŵr gwastraff o'r busnes, cynnig treialon i reoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy yn ystod 2020-2025 ac ymatebion i bapurau ymgynghori, fel y rheini ar 'Brexit a'n tir'.
- Byddwn hefyd yn cefnogi'r adferiad gwyrdd o bandemig parhaus COVID-19 lle y bo'n bosibl.

Mae Llywodraeth Cymru am i ni fabwysiadu atebion yn seiliedig ar natur i drin dŵr gwastraff a dŵr wyneb sy'n draenio, megis gwelyau brwyn a draenio cynaliadwy. Mae opsiynau o'r fath, yn ddi-os, yn cynnig manteision ehangach i'r amgylchedd, gan gynnwys, er enghraifft, drwy gynnig cynefinoedd newydd, yn aml mewn lleoliad trefol. Rydym yn barod iawn i dderbyn syniadau o'r fath. Fodd bynnag, mae'r technolegau hyn yn eu hanfod yn llai rhagweladwy na phrosesau a rhwydweithiau trin confensiynol sy'n cynnwys peirianwaith caled. Hoffem pe bai Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod y cyfyngiadau hyn pan fydd yn gosod ac yn gorfodi'r safonau y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â hwy.

Yn aml, mae angen i fuddsoddiadau o'r fath gael eu gwneud ymhell cyn bod eu hangen, mewn rhai achosion mwy nag un cyfnod buddsoddi pum mlynedd cyn atebion mwy confensiynol, er mwyn iddynt gael cyfle gwirioneddol i lwyddo sydd, unwaith eto, yn ei gwneud yn ofynnol i'n rheoleiddiwr weithredu'n hyblyg a rhannu'r risg reoleiddiol.

Mae ein menter flaenllaw "GlawLif" wedi ein gwneud yn un o arweinwyr y sector o ran systemau draenio cynaliadwy. Mae hyn yn helpu i gyflawni un o'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru y llynedd i gynnal cydnerthedd ecosystemau. Byddwn hefyd yn croesawu egwyddorion yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol i gyflawni canlyniadau buddiannau lluosog.

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i chwilio am ffyrdd o oresgyn rhwystrau cyfreithiol a rhwystrau eraill sy'n ein hatal rhag defnyddio opsiynau draenio cynaliadwy yn ehangach, yn enwedig ansicrwydd ynghylch gwaith cynnal a chadw yn yr hirdymor.

## Ymrwymiad 11

**Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ofwat a Cyfoeth Naturiol Cymru, i chwilio am ffyrdd o oresgyn rhwystrau rheoleiddiol a all ein hatal rhag mabwysiadu mwy o ddulliau yn seiliedig ar natur o ymdrin â rhai prosesau trin a gwaith rheoli dŵr wyneb.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn


Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac amrywiaeth o randdeiliaid eraill i hyrwyddo gwelliannau i'r broses o reoli dŵr wyneb yn ein hardaloedd trefol. Drwy'r broses ymgysylltu hon byddwn yn treialu ymchwiliadau ar y cyd a phrosiectau ar y cyd i reoli dŵr wyneb, sydd â'r nod o sicrhau buddiannau lluosog i fioamrywiaeth drwy ddefnyddio atebion draenio cynaliadwy.



**Astudiaeth achos**

# GlawLif

Yn Dŵr Cymru, rydym wedi arwain y ffordd o ran datblygu a defnyddio atebion arloesol, newydd i reoli faint o ddŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'n carthffosydd cyfun mewn rhai lleoliadau. Yr enw ar y dull hwn yw GlawLif. Mae'n helpu i leihau perygl llifogydd mewn carthffosydd a llygredd, a hefyd yn helpu i gynyddu capasiti ein rhwydwaith o garthffosydd a'i allu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn cynlluniau GlawLif, y dylai rhai ohonynt greu cynefinoedd newydd ar gyfer natur, gan gynnwys mewn amgylcheddau trefol. Ymhlith yr enghreifftiau mae Llanelli; a'r prosiect partneriaeth "Grangetown Werddach" a arweinir gan Gyngor Dinas Caerdydd.




**Astudiaeth achos**

# Ystafelloedd dosbarth rhithwir

Ym mis Ebrill 2020, bu'n rhaid i ni addasu'r ffordd roeddem yn cyflwyno ein rhaglen addysgol oherwydd pandemig y coronafeirws. Rydym wedi llwyddo i gyflwyno rhaglen ddysgu drwy raglen ar-lein rithwir yn ogystal â chyhoeddi deunydd dysgu ychwanegol sydd ar gael i bawb drwy ein gwefan. Byddwn yn parhau i wneud hyn drwy gydol y pandemig a hyd nes y bydd yn ddiogel i ni ddychwelyd i'n canolfannau addysg unwaith eto.

# Cenedlaethau'r Dyfodol – Addysg

Rydym yn credu mewn addysgu cenedlaethau'r dyfodol ynglŷn â phwysigrwydd diogelu'r amgylchedd. Rydym hefyd am godi ymwybyddiaeth o'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth mewn ffordd sy'n rhoi tawelwch meddwl heb godi braw na phryder. Rydym am annog cenedlaethau'r dyfodol i wneud gwahaniaeth heb deimlo eu bod yn cael eu llethu gan yr heriau sy'n eu hwynebu.

Rydym wedi datblygu rhaglen o weithgareddau i blant, drwy ein strategaeth addysg o'r enw "Byw a Dysgu gyda Dŵr". Mae'r gweithgareddau hyn, sydd wedi'u dylunio gan arbenigwyr addysgol, yn gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn rhoi cyfle i blant oedran ysgol gynradd ddeall y cylch dŵr a'r rôl hollbwysig y mae dŵr yn ei chwarae yn ein bywydau bob dydd.

Ers lansio ein strategaeth addysg, mae llawer o filoedd o blant wedi ymweld â'n pedair Canolfan Darganfod (Rhostir Cog a Chilfynydd yn y de, Alwen yn y gogledd a Chwm Elan yn y canolbarth), neu wedi cael budd o'n gwaith allgymorth a weinyddir gan ein hathro peripatetig. Fe'i darperir gan athrawon amser llawn ar secondiad neu barcmyn amgylcheddol ac mae plant yn cael cyfle, am ddim, i ddysgu am bwysigrwydd dŵr a chymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol sy'n ymwneud, er enghraifft, â'r cylch dŵr, effeithlonrwydd dŵr, pyllau chwilota ac astudiaethau o afonydd.

## Ymrwymiad 12

**Byddwn yn parhau â'n rôl yn y gwaith o addysgu cenedlaethau'r dyfodol am bwysigrwydd yr amgylchedd dŵr, gan gynnwys ei fflora a'i ffawna.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Drwy ein Cronfa Gymunedol, rydym wedi cefnogi prosiectau cymunedol lleol i wella bioamrywiaeth yn ein hardaloedd gweithredol a byddwn yn parhau i wneud hyn yn y dyfodol.

Bydd dosbarthiadau ar-lein rhithwir yn parhau drwy gydol y pandemig a hyd nes y bydd yn ddiogel i ni ddychwelyd i'n canolfannau addysg.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod adnoddau addysgol ar gael drwy ein gwefan ac yn defnyddio ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i rannu gwybodaeth am yr adnodd hwn sydd am ddim.

Drwy ein partneriaeth â Chlybiau Ffermwyr Ifanc Cymru, rydym yn addysgu darpar ffermwyr ar ddull gweithredu TarddLe a'r rôl y gallant ei chwarae yn ein helpu ni i warchod ein cyflenwadau dŵr yfed sydd o fudd i'r amgylchedd ac i fywyd gwyllt. Gwneir hyn drwy gamau gweithredu fel lleoliadau profiad gwaith ac ymweliadau â'n Gweithfeydd Trin Dŵr.

# Newid yn yr Hinsawdd

Yn y blynyddoedd sydd i ddod, bydd newid yn yr hinsawdd yn parhau i effeithio ar natur. Mae ein hymrwymiad i leihau ein hôl troed carbon yn gyfraniad pwysig i leddfu'r risgiau a'r effeithiau sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd.

Mae Dŵr Cymru yn parhau i weithio i leihau allyriadau nwy tŷ gwydr drwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ein safleoedd. Rydym wedi cynyddu'r ynni rydym yn ei gynhyrchu ar ein safleoedd yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Byddwn hefyd yn defnyddio ein safleoedd ynni i gynyddu bioamrywiaeth drwy blannu blodau gwyllt brodorol er mwyn creu dolydd.

## Ymrwymiad 13

**Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gynyddu ein gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwella effeithlonrwydd ynni ein gweithrediadau presennol.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Roedd ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd gennym yn gyfrifol am gyfanswm o 24% o'r ynni a ddefnyddiwyd gennym yn 2019/2020. Mae'r cynnydd o gymharu â'r llynedd o ganlyniad i gynnydd yn y nwy gwyrdd a gynhyrchwyd yn ein Parc Ynni ym Mhum Rhyd, sy'n golygu bod y cwmni yn gwbl hunangynhaliol o ran nwy.

Rydym yn cael gweddill y trydan i ateb galw'r cwmni o ran ynni gan Ørsted, sy'n cyflenwi pŵer 100% adnewyddadwy, wedi'i gefnogi gan REGO (Gwarant Tarddiad Ynni Adnewyddadwy), i ni.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2019-20, mae cyfanswm o £37.2 miliwn wedi'i fuddsoddi dros gyfnod AMP 6 (2015-2020), gan leihau'r ynni a ddefnyddir gan y grid 54.8 GWh y flwyddyn.

Er mwyn cyflawni ein targed hunangynhaliaeth o 35% erbyn 2025, mae'r cwmni yn bwriadu buddsoddi £21 miliwn pellach mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni a phrosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy dros y pum mlynedd nesaf (AMP 7).

Yn 2016, gwnaethom beth ymchwil er mwyn deall yn well effaith newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd y gweithredwn ynddo. Mae'r ymchwil a gwblhawyd wedi nodi rhai ecosystemau hollbwysig y mae angen i ni ymchwilio iddynt ymhellach er mwyn deall eu cydnerthedd a'u heffaith ar ein gweithrediadau yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ein hymdrechion ar yr argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth er mwyn meithrin dealltwriaeth a blaengynllunio. Bydd ein grŵp newydd Ailfeddwl am Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd hefyd yn helpu gyda'r agenda hon.

## Ymrwymiad 14


**Byddwn yn ymchwilio i'r effaith y bydd newid yn yr hinsawdd yn debygol o'i chael ar yr amgylchedd ac ecosystemau erbyn 2050 ac amlinellu ein huchelgeisiau o ran ymchwil ar gyfer 2020-25 yn ein cynllun busnes nesaf.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Mae deall newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys ei effaith ar fioamrywiaeth, ac ymateb iddo yn un o brif themâu 'Dŵr Cymru 2050'. Mae hyn wedi'i gynnwys mewn ymatebion strategol a mapiau siwrnai ar draws y cwmni.

Am y tro cyntaf, caiff effaith newid yn yr hinsawdd ei hystyried yn y systemau dŵr gwastraff a ddylunnir gennym drwy'r gwaith parhaus o ddatblygu Cynlluniau Draenio a Rheoli Dŵr Gwastraff y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022.

Sefydlwyd grŵp Ailfeddwl am Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd hefyd o fewn Dŵr Cymru sy'n cynnwys 10 unigolyn o bob rhan o'r busnes sy'n rhannu diddordeb ac angerdd cyffredin mewn perthynas â mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae'r grŵp hwn wedi datblygu nifer o amcanion tymor byr, tymor canolig a hirdymor i'r cwmni er mwyn cyflawni gweledigaeth Dŵr Cymru ar gyfer 2050 yn ogystal â herio syniadau a ffyrdd presennol o feddwl.



Astudiaeth achos

# Ailfeddwl am Newid yn yr Hinsawdd

Sefydlwyd grŵp Ailfeddwl am Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd Dŵr Cymru ar ddiwedd 2020, ac mae'n cynnwys 10 aelod o bob cefndir a maes o'r busnes. Bydd y grŵp hwn yn herio ein cyfeiriad a'n blaengynlluniau i fynd i'r afael â'r argyfwng newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth gan ystyried blaenoriaethau a dulliau gweithredu newydd, yn ogystal ag addysgu a chodi ymwybyddiaeth. Yn yr amser byr ers iddo gael ei sefydlu, mae'r grŵp wedi nodi naw maes i'r cwmni ganolbwyntio arnynt. Byddwn yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ein hadroddiad bioamrywiaeth nesaf yn 2022.

# Gofalu am safleoedd a warchodir

## Mae rhai o'n safleoedd gweithredol a'n daliadau tir o fewn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, felly maent wedi'u diogelu o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 am eu bod yn cynnwys bywyd gwyllt neu nodweddion daearegol neu nodweddion tir sydd o bwys arbennig.

Cyfrifoldeb ein rheoleiddiwr, Cyfoeth Naturiol Cymru, yw pennu cyflwr safleoedd o'r fath. Er mwyn helpu sefydliadau fel ein sefydliad ni i nodi'r problemau sylweddol y dylid mynd i'r afael â hwy gan y byddent fel arall yn achosi i nodweddion safle fod mewn cyflwr anffafriol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal "Cronfa Ddata Camau Gweithredu" ar y we. Mae Dŵr Cymru yn monitro'r gronfa ddata yn rheolaidd er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u nodi ar ein safleoedd.

### Ymrwymiad 15

**Byddwn yn parhau i ddefnyddio "Cronfa Ddata Camau Gweithredu" Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn nodi a mynd i'r afael â phroblemau yn y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig rydym yn berchen arnynt.**

**Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn**

Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i ddisodli gan ymrwymiad 16 gan fod cronfa ddata Camau Gweithredu Cyfoeth Naturiol Cymru all-lein ar hyn o bryd wrth i'r rheoleiddiwr weithio ar adnodd newydd.

### Ymrwymiad 16

**Gan barhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, byddwn yn dechrau ar ymchwiliadau i gyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig rydym yn berchen arnynt ac yn datblygu rhaglen wella i'r graddau y mae hynny'n gyson ag arfer ein swyddogaethau.**

**Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn**

Mae prosiect ymchwil a gomisiynwyd yn mynd rhagddo o hyd ac mae cam 1 wedi'i gwblhau bellach.

Mae cam 2 y prosiect yn mynd rhagddo a fydd yn ein galluogi, gan ddefnyddio'r adnodd blaenoriaethu, i wella ein dealltwriaeth o bedwar o'n safleoedd SoDdGA.

Ein nod nawr yw rhoi cynllun gweithredu ar waith yn seiliedig ar argymhellion ein hymchwil ar y safleoedd SoDdGA.



# Gweithio mewn partneriaeth

Bydd gwella bioamrywiaeth yng Nghymru yn gofyn am ymdrech ar y cyd gan lawer o sefydliadau. Felly, mae Dŵr Cymru am barhau i feithrin cydberthnasau da â sefydliadau eraill a gweithio mewn partneriaeth lle mae cyfleoedd buddiol i wneud hynny a lle mae'n gweddu i'n swyddogaethau fel ymgymerwr dŵr a dŵr gwastraff.

Rydym yn chwarae rôl weithredol mewn grwpiau amrywiol sydd â rôl bwysig yn y gwaith o gynnal yr amgylchedd naturiol. Er enghraifft, rydym yn aelodau o Grŵp Bioamrywiaeth Cymru; rydym yn cael ein cynrychioli ar y grwpiau yng Nghymru sy'n annog cydweithredu ymhlith yr awdurdodau perthnasol a sefydlwyd o dan y Rheoliadau Cynefinoedd sydd â budd uniongyrchol mewn Ardaloedd Morol Gwarchodedig ac yn rhoi cymorth ariannol iddynt; ac rydym wedi sefydlu Panel Cynghori Amgylcheddol Annibynnol i roi cyngor i ni a bod yn 'gyfaill beirniadol'.

**Astudiaeth achos**

## Panel Cynghori Amgylcheddol Annibynnol (IEAP)

Cafodd y panel ei sefydlu yn 2012, gyda'r nod o helpu Dŵr Cymru i (i) sicrhau'r gwerth mwyaf o'i raglen fuddsoddi i gwsmeriaid a'r amgylchedd a (ii) sicrhau dyfodol diogel a chynaliadwy i'n hamgylchedd; un sy'n gallu cynnal yr economi ac ansawdd bywyd am genedlaethau i ddod.

Er mwyn gwneud hyn, yn ogystal ag ystyriaethau amgylcheddol, mae'r IEAP yn ystyried goblygiadau cymdeithasol ac economaidd unrhyw gyngor neu gynnig, gan gynnwys yr effaith y gallant ei chael ar 'fforddiadwyedd' (h.y. ar filiau cwsmeriaid).

Daw ei aelodau o blith rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cyrff anllywodraethol amgylcheddol; cynrychiolwyr y sector coedwigaeth a'r sector ffermio; y byd academaidd; llywodraeth leol; Llywodraeth Cymru a'i rheoleiddwyr.

Rydym hefyd yn gallu rhoi cymorth ariannol cyfyngedig i rai prosiectau nid er elw, os oes cysylltiad â'n gweithgareddau. Mae hyn naill ai drwy ein cronfa Amgylcheddol neu drwy ein Cronfa Gymunedol ar gyfer prosiectau llai. Ceir rhagor o wybodaeth a ffurflenni cais ar wefan Dŵr Cymru.

## Ymrwymiad 17

**Byddwn yn parhau i wahodd ceisiadau gan sefydliadau nid er elw am arian grant ar gyfer prosiectau a fydd yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr lle bydd cyrff dŵr nad ydynt yn cyrraedd Statws Ecolegol Da yn cael budd a lle mae cysylltiad sylweddol â gweithrediadau a buddiannau Dŵr Cymru.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Rydym yn annog ceisiadau am gyllid ar gyfer prosiectau drwy AMP 7 (2020-25) a fydd yn cyfrannu at gyflawni ein hamcanion ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae cyllid hefyd ar gael ar gyfer unrhyw waith sy'n cysylltu â'n gweithgareddau bioamrywiaeth yn ogystal â'r Gronfa Gymunedol ar gyfer prosiectau llai.

Mae nifer o grwpiau a hoffai weithio gyda ni er mwyn ein helpu i gynnal safleoedd lleol, e.e. drwy godi sbwriel. Rydym yn croesawu ymwneud cymunedau lleol yn hyn o beth, ond rydym yn ystyriol o iechyd a diogelwch staff a gwirfoddolwyr fel ei gilydd, yn ogystal â'r angen i sicrhau na chaiff gallu gweithredol ein hasedau ei beryglu o gwbl. Rydym hefyd yn ymwybodol, yn ystod pandemig COVID-19, bod angen i ni ystyried unrhyw fesurau iechyd a diogelwch ychwanegol.

Rydym wrthi'n ystyried y posibilrwydd o sefydlu grŵp "Cyfeillion" mewn safleoedd penodol, gan gynnwys eu rôl bosibl, e.e. cynnal cyfleusterau ar gyfer natur megis blychau adar, yn ogystal â threfniadau i'w goruchwylio. Rydym yn cael trafodaethau â rhai grwpiau cymunedol sy'n bodoli eisoes a sefydliadau sydd wedi mynegi diddordeb mewn gweithio gyda ni i gyfoethogi potensial bioamrywiaeth rhai o'n safleoedd llai o faint, er enghraifft, drwy blannu blodau sy'n denu peillwyr.

## Ymrwymiad 18

**Parhau i ystyried rôl "Cyfeillion" a grwpiau cymunedol eraill a allai fabwysiadu rhai o'n safleoedd a'n helpu i'w rheoli.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Er mwyn annog mwy o ymdeimlad o berchnogaeth a chynhwysiant cymunedol ar draws nifer o'n safleoedd rydym yn datblygu ymgyrch 'Cyfeillion'. Mae'r gwaith o ddatblygu seilwaith gwirfoddoli yn mynd rhagddo. Lansiwyd nifer o grwpiau 'Cyfeillion' ar draws ein safleoedd yn cynnwys Llys-faen a Llanisien ac mae grwpiau wrthi'n cael eu datblygu yn Llys-y-Frân a Llyn Alaw.

Rhywogaethau estron yw anifeiliaid a phlanhigion o dramor sydd wedi cael eu cyflwyno ym Mhrydain gan bobl ac sydd wedi cytrefu ein hamgylchedd naturiol. Mae llawer o rywogaethau estron yn y DU: mae'r rhan fwyaf yn eithaf diniwed, ond mae tua 10-15% yn achosi heriau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y mae angen mynd i'r afael â hwy. Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) yw'r rhain ac maent yn fygythiad mawr i fioamrywiaeth gan eu bod yn ffynnu ar draul ein rhywogaethau brodorol. Awgrymwyd hefyd y bydd y broblem hon yn gwaethygu oherwydd y newid yn yr hinsawdd gan y bydd mwy o INNS yn cael eu lledaenu. Mae rhai yn peryglu ein gweithgareddau gweithredol: er enghraifft, rydym wedi dod o hyd i fisglod rhesog estron sy'n glynu wrth arwynebau solet, ac a all atal pibellau, hidlwyr a strwythurau cyflenwad dŵr eraill a rhwystro llif dŵr, yng nghronfa ddŵr Llandegfedd a Gwaith Trin Dŵr Court Farm.

Mae Dŵr Cymru wedi rhoi arian i gefnogi grwpiau cymunedol a gwirfoddol sy'n cynnig prosiectau i atal twf a lledaeniad INNS sy'n fygythiad i blanhigion ac anifeiliaid brodorol. Ond rydym yn credu'n gadarn bod angen i'r holl gamau gweithredu gael eu cydgysylltu ar lefel dalgylch er mwyn lleihau ailgytrefu ac rydym yn croesawu cyfleoedd i gydweithredu yn hyn o beth.

## Ymrwymiad 19

**Byddwn yn parhau i wahodd ceisiadau gan sefydliadau nid er elw am arian tuag at brosiectau a fydd yn helpu i atal, lleihau, dileu neu reoli perygl rhywogaethau estron (INNS) a lle mae rhyw gysylltiad â gweithrediadau Dŵr Cymru.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Nid dim ond Dŵr Cymru sy'n wynebu her INNS. Drwy gydweithio, gallwn wneud pob ymdrech i reoli a dileu INNS yn ein dalgylchoedd ac ar ein safleoedd gweithredol. Rydym yn annog ceisiadau gan y sector gwirfoddol sydd â'r nod o fynd i'r afael â phryderon yn ymwneud ag INNS yn ein hardaloedd gweithredol. Bydd y prosiectau a gaiff eu cyllido gan y cynllun yn helpu i fanteisio i'r eithaf ar ymdrechion Dŵr Cymru ei hun i fynd i'r afael ag INNS a chyfrannu at yr ymdrechion ehangach i ymdrin â bygythiad INNS i fioamrywiaeth.



# Ein pobl



# Ein pobl

## Fel cwmni, ein hased mwyaf yw ein tîm o gydweithwyr y mae eu hymroddiad a'u brwdfrydedd yn allweddol i gyflawni ein gweledigaeth i "Ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd".

Mae angen i ni sicrhau bod ein pobl a'n contractwyr yn ymwybodol o'r dyletswyddau sydd gennym i warchod bioamrywiaeth a natur, yn ogystal â'r heriau rydym yn eu hwynebu o ran risgiau sy'n dod i'r amlwg a'r argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth.

Mewn ymateb i'r ddyletswydd bioamrywiaeth gryfach arnom, mae Dŵr Cymru wedi trefnu i'w holl staff gael cyfle i gael hyfforddiant drwy gwrs e-ddysgu mewnol a gafodd ei gyflwyno yn 2018. Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd eraill o godi ymwybyddiaeth gyda'n cyflogeion ar bob lefel, megis drwy ymarferion adeiladu tîm amgylcheddol, ein Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth a'n grwpiau Ailfeddwl.

### Ymrwymiad 20

**Byddwn yn parhau i roi cyfle i'n holl gydweithwyr ddysgu am rwymedigaethau cadwraeth cyfreithiol Dŵr Cymru.**

#### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

- Mae modiwl e-ddysgu ar gael i bob cyflogai yn esbonio ein dyletswyddau cadwraeth. Caiff ei ddiweddaru'n rheolaidd.
- Rydym yn parhau i gynnig hyfforddiant wedi'i deilwra i bartneriaid y Gynghrair a'n timau cyfalaf sydd hefyd yn cael ei ehangu i bob maes busnes arall yn ôl yr angen.
- Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n tîm ystadau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'n rhwymedigaethau cadwraeth cyfreithiol ar draws y busnes.

### Ymrwymiad 21

**Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd (e.e. drwy ddulliau cyfathrebu a chystadlaethau mewnol) i harneisio brwdfrydedd ein cydweithwyr i helpu natur pan fyddant wrthi'n gwneud eu gwaith bob dydd i ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff.**

#### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Gan weithio'n agos gyda'n timau cyfathrebu mewnol, rydym wedi datblygu nifer o fentrau mewnol. Rydym hefyd wrthi'n creu adnodd cynllunio cerrig milltir blynyddol i sicrhau y caiff negeseuon allweddol eu rhannu drwy gydol y flwyddyn fel sy'n briodol. Caiff y broses gyfathrebu hon hefyd ei hyrwyddo drwy waith ein Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth. Ymhlith ein hymgyrchoedd mae:

- Straeon newyddion da a rhannu arferion gorau drwy erthyglau ar ein sianelau cyfathrebu mewnol. Rydym yn gobeithio rhannu hyn yn allanol yn y dyfodol agos.
- Negeseuon i atgoffa am ddigwyddiadau i randdeiliaid allanol gymryd rhan ynddynt fel digwyddiad gwylio adar blynyddol yr RSPB.
- Canllawiau ymarferol a llyfrynnau gwybodaeth amrywiol.

Drwy ein cadwyn gyflenwi gallwn ddylanwadu ar eraill i roi mwy o bwys ar ymdrechion i ddiogelu bioamrywiaeth. Rydym wedi dod yn aelod o'r Ysgol Cadwyn Gyflenwi Gynaliadwy, sydd â'r nod o wella gwybodaeth cadwyni cyflenwi am faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd a'u perfformiad.

## Ymrwymiad 22

**Rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'n dyletswyddau bioamrywiaeth ymhlith ein contractwyr drwy ein trefniadau cytundebol a'n proses gaffael a byddwn yn annog ein contractwyr i chwarae eu rhan er mwyn helpu i gyflawni ein dyletswydd wrth iddynt weithio ar ein rhan.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Rydym yn parhau i gynnig hyfforddiant wedi'i deilwra i bartneriaid y Gynghrair a'n timau cyfalaf. Er mwyn gwella hyn caiff ein Cynllun Bioamrywiaeth ei rannu ac mae ar gael yn rhwydd.

Rhennir ein cynllun hefyd â chontractwyr fel rhan o'n dogfennaeth dendro safonol.

Mae angen i gydweithwyr ym mhob rhan o'r busnes fod yn ymwybodol o INNS a gwybod beth i'w wneud yn eu cylch, felly cafodd Datganiad Sefyllfa a Fframwaith Bioddiogelwch i'r cwmni cyfan i gefnogi cydweithwyr eu llunio. Gwnaethom sylweddoli bod angen canllaw hawdd ei ddefnyddio ar gydweithwyr i'w helpu i nodi rhywogaethau goresgynnol ar ein safleoedd. Mae ein llyfryn mewnol sy'n dwyn y teitl 'Invasive Non-Native Species Identification' ar gael i helpu ein cydweithwyr i adnabod y rhywogaethau hyn pan fyddant yn ymgymryd â'u rôl a rhoi canllaw iddynt ar y ffordd y gallant roi gwybod amdanynt. Caiff gwybodaeth o'r llyfryn hwn ei rannu drwy ein hymgyrch cyfathrebu mewnol INNS y Mis ac mae ein Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth yn parhau i rannu'r neges a rhoi cymorth ar draws eu safleoedd gweithredol.

## Ymrwymiad 23

**Byddwn yn parhau i rannu "Invasive Non-Native Species Identification Guide" â'n cydweithwyr a fydd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf dymhorol.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

- Mae "Invasive Non-Native Species Identification Guide" ar gael i gyflogeion a chontractwyr ei ddefnyddio a chaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd.
- Gan ddefnyddio nifer o lwyfannau cyfryngau, caiff gohebiaeth am INNS a cherrig milltir ecolegol eraill, er enghraifft, tymor nythu adar, ei rhannu'n fewnol.
- Bydd ein Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth yn parhau i gydgysylltu â chydweithwyr gweithredol i roi cyngor, i ddosbarthu deunyddiau ac i hyrwyddo arferion gorau.

Mae llawer o'n safleoedd gweithredol – sy'n amrywio o weithfeydd mawr sy'n ymestyn dros sawl erw (megis Pum Rhyd ger Wrecsam) i safleoedd bach iawn (megis gorsafoedd pwmpio lleol ) – yn cynnig cyfleoedd i ni gyflwyno mesurau ar raddfa fach ond rhai buddiol i gynnal natur. Er bod yn rhaid i ni sicrhau bod ein safleoedd yn ddiogel – felly, er enghraifft, sicrhau bod ein pobl yn cael mynediad diogel a hawdd at dyllau archwilio ac ati. – credwn y gall y safleoedd hyn gynnig cyfleoedd, megis drwy blannu blodau sy'n denu peillwyr, neu osod bylchau adar, neu fesurau eraill sy'n ystyriol o fyd natur. Rydym yn parhau â'r gwaith hwn ac yn ehangu i'n safleoedd gweithredol dŵr yn ogystal â'n safleoedd ynni. Byddwn hefyd yn gofyn i'n cydweithwyr mewn swyddogaethau cymorth archwilio'r modd y gallwn helpu i hyrwyddo bioamrywiaeth yn eu mannau gwyrdd.

Yn ystod y pandemig parhaus rydym wedi cysylltu â chydweithwyr i ofyn sut y gallwn hyrwyddo bioamrywiaeth yn ein cartrefi ein hunain drwy westai bygiau, blychau adar a phlanhigion sydd wedi bod o fudd mawr i natur ac wedi cefnogi llesiant ein pobl.

## Ymrwymiad 24

**Ehangu ein Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth i bob rhan o'r busnes. Annog hyrwyddwyr i barhau â'u gwaith gwych yn ogystal â chwilio am gyfleoedd newydd i gefnogi natur.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Mae ein Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth yn parhau i fod yn llwyddiant ysgubol gan gyflwyno amrywiaeth o brosiectau yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth yn eu meysydd gweithredol a gyda chydweithwyr. Mae canlyniadau prosiectau wedi'u cyfyngu yn 2020 oherwydd COVID-19. Fodd bynnag, lle y bo'n bosibl, mae ein Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth wedi parhau â'u gwaith caled yn eu safleoedd gweithredol, ac wedi hyrwyddo ymgyrch ar draws y cwmni i gynyddu bioamrywiaeth yn ein cartrefi ein hunain.

Oherwydd y canlyniadau gwych a gyflawnwyd eisoes gan ein Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth Dŵr Gwastraff, byddwn yn recriwtio Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth o bob rhan o'r busnes i helpu i barhau â'r gwaith pwysig hwn yn fewnol.

Yn anffodus, oherwydd COVID-19, ni fu'n bosibl i ni drefnu gweithdy tebyg i'r un a gynhaliwyd yn 2017 i drafod diwygiadau posibl i'r papur hwn. Yn hytrach, buom yn gweithio'n 'rhithwir' i gasglu diweddariadau, i drafod syniadau newydd ac i godi ymwybyddiaeth yn y dyfodol o'n dyletswydd bioamrywiaeth gryfach. Pan fydd yn bosibl, a phan fydd yn ddiogel i ni wneud hynny, byddwn yn trefnu gweithdy i flaengynllunio ar gyfer adroddiad 2022 a chynllun gweithredu bioamrywiaeth a fydd yn ein harwain i'r cyfnod ariannol nesaf (AMP 8).

## Ymrwymiad 25

**Byddwn yn adolygu'r holl syniadau o sylwedd a ddeilliodd o'r gweithdy ar fioamrywiaeth er mwyn asesu pa mor ymarferol ydynt; eu gwerth posibl; a'u blaenoriaethu.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Oherwydd pandemig parhaus COVID-19, ni fu'n bosibl i ni drefnu gweithdy gyda rhanddeiliaid mewnol ar draws y busnes yn ôl yr arfer i drafod syniadau a chynnydd. Caiff hyn ei drefnu pan fydd yn ddiogel i ni wneud hynny. Yn y cyfamser, trafodwyd syniadau, cynnydd ac ymgysylltiad drwy gyfarfodydd rhithwir.

Yn dilyn y gweithdy yn 2017, cafodd rhai syniadau tymor byrrach eu creu a'u datblygu fel a ganlyn:

## Ymrwymiad 26

**Wrth gaffael ein contractau nesaf ar gyfer cynnal a chadw tiroedd, byddwn yn annog y rhai sy'n cyflwyno tendrau i ystyried buddiannau bioamrywiaeth ac yn annog arferion gorau er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Mae pob contractwr cynnal a chadw tiroedd yn llwyr ymwybodol o'n dyletswydd bioamrywiaeth gryfach. Byddwn yn parhau i godi ymwybyddiaeth, i annog arloesedd ac i herio ffyrdd o weithio.

Yn ystod y pandemig, mae nifer o'n safleoedd gweithredol mwyaf wedi cael eu troi'n ddolydd peillio gan wella bioamrywiaeth ar y safleoedd. Caiff hyn ei annog ar safleoedd eraill pan fydd yn ddiogel i ni wneud hynny.

## Ymrwymiad 27

**Byddwn yn parhau i adolygu ein gweithdrefnau (rhai mewnol ac ar y cyd â phartneriaid y Gynghrair) i ffurfioli'r ffordd y dylid ystyried manteision bioamrywiaeth posibl (gan gynnwys gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd) pan gaiff cynlluniau cyfalaf eu dylunio ac, os yw'n berthnasol, y gwaith parhaus o'u cynnal a'u cadw.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid y Gynghrair mewn nifer o ffyrdd i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn ein safleoedd gwaith cyfalaf. Mae hyn yn cynnwys:

1. Cryfhau'r ymrwymiad bioamrywiaeth yn y rhestr wirio alluogi sy'n sicrhau bod prosiectau cyflawni cyfalaf yn ystyried bioamrywiaeth ar bob cam yn unol â gweledigaeth Dŵr Cymru.
2. Datblygu proses drosglwyddo i gwmpasu rhwymedigaethau amgylcheddol a chynllunio yn benodol. Cefnogi Dŵr Cymru i sicrhau y caiff unrhyw ymrwymiadau parhaus eu cyflawni.
3. Parhau i gynnal sesiynau hyfforddi rheolaidd fel bod holl staff partneriaid y Gynghrair yn ymwybodol o'n dyletswyddau bioamrywiaeth a mesurau lliniaru ecolegol.
4. Parhau i archwilio a chyflwyno mesurau i gatalogio enillion bioamrywiaeth gyda phartneriaid y Gynghrair.
5. Mae partneriaid y Gynghrair hefyd yn datblygu strategaeth i leihau carbon.

## Ymrwymiad 28

**Yn dilyn ein treial bioamrywiaeth ar nifer o'n safleoedd gweithredol er mwyn dangos sut y gellir cynnal natur heb danseilio diben gweithredol safleoedd nac iechyd a diogelwch ein cydweithwyr, byddwn yn datblygu Cynlluniau Rheoli Bioamrywiaeth sy'n benodol i safleoedd.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau bellach a chaiff ei ehangu i safleoedd eraill ar draws y busnes dŵr gwastraff. Mae'r cynlluniau yn dal i fynd rhagddynt ar y safleoedd gwreiddiol a oedd yn cynnwys y treial bioamrywiaeth yng ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Caerdydd.

Datblygwyd Cynlluniau Rheoli Bioamrywiaeth sy'n Benodol i Safleoedd ar gyfer rhai safleoedd ac maent yn dal i fynd rhagddynt. Cafwyd oedi i'r ymdrechion cyflawni hyn oherwydd pandemig COVID-19 a mynediad cyfyngedig i'n safleoedd gweithredol.

## Ymrwymiad 29

**Byddwn yn parhau i goladu'r wybodaeth ecolegol, fel arolygon, sydd gennym eisoes i'n helpu i lywio ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol i gynnal a gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn chwilio am dystiolaeth o bresenoldeb y rhywogaethau neu'r cynefinoedd mewn Rhestrau Bioamrywiaeth a gyhoeddir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Rydym yn parhau i adeiladu'r gronfa ddata fewnol hon a fydd ar gael i'w defnyddio ar draws y cwmni yn cynnwys ein timau cyfalaf a phartneriaid y Gynghrair a fydd hefyd yn bwydo i mewn i'r gronfa ddata hon.

## Ymrwymiad 30


**Yn dilyn ein gwaith gyda'n rheoleiddwyr, rydym wedi cynnwys atebion sy'n seiliedig ar fioamrywiaeth a natur yn opsiynau'r cynllun a ystyrir pan fyddwn yn datblygu ein rhaglen fuddsoddi ar gyfer 2020-2025. Fel rhan o'r gwaith hwn, gwnaethom nodi cyfleoedd posibl ar gyfer prosiectau a ysgogir gan fioamrywiaeth sy'n gysylltiedig ag arfer ein swyddogaethau, a byddwn yn adolygu'r achos dros fuddsoddi mewn pryd cyn llunio ein cynllun busnes terfynol ar gyfer 2020-2025.**

### Sut rydym yn gweithio i gyflawni hyn

Dwy raglen waith gwerth cyfanswm o £40m a fydd yn helpu i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn ein dalgylchoedd yn cynnwys Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a Chynlluniau Draenio a Rheoli Dŵr Gwastraff.

Bydd y rhaglenni gwaith hyn yn cyflwyno buddiannau lluosog a fydd hefyd yn cyfrannu at gynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol.

Byddwn yn ymgorffori Cyfrifyddu Cyfalaf Naturiol yn ein penderfyniadau buddsoddi ar gyfer y dyfodol ac mae'r union brosesau yn dal i gael eu datblygu.



**Astudiaeth achos**

# Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Bydd y rhaglen waith buddiannau lluosog hon yn dechrau yn 2021 a bydd ei chanlyniadau'n helpu i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth yn ardaloedd ei hastudiaeth beilot. Mae Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy wedi'i llunio o naw egwyddor graidd ac mae dwy o'r rhain yn canolbwyntio'n helaeth ar fioamrywiaeth ac ecosystemau.

Cynhelir pedair astudiaeth beilot yng nghyfnod yr AMP hwn (2020-25) a chaiff yr astudiaeth beilot gyntaf ei lansio yn Nalgylch Clwyd yn y gogledd-ddwyrain yn 2021 gyda buddsoddiad yn targedu gwelliannau cynaliadwy i ansawdd dŵr a fydd hefyd yn gwella bioamrywiaeth.

# Mesur ein hymrwymiadau a chyflwyno adroddiadau arnynt

## Isod, ceir crynodeb o'n 30 o ymrwymiadau gyda therfynau amser newydd – mae llawer ohonynt yn mynd rhagddynt o hyd.

Bydd terfynau amser penodol ar gyfer cynnydd mewn perthynas â'r manylion sy'n sail i'r ymrwymiadau hyn a gaiff eu hadrodd yn 2022. Gwnaethom gwblhau wyth o'n hymrwymiadau o 2017 yn llwyddiannus. Fodd bynnag, ar ôl ystyried, rydym wedi penderfynu y gallwn wneud mwy i wella'r amgylchedd y tu hwnt i'n hymrwymiadau gwreiddiol ac rydym wedi cynnwys hyn yn ein diweddariad.

Mae'r holl ymrwymiadau'n ystyried cysylltiadau â dogfennau allanol fel y Datganiadau Ardal a Chynllun Gweithredu Adfer Natur sydd newydd gael ei gyhoeddi. Ni chyfeirir atynt yn y tabl hwn, fel y gwnaed yn flaenorol, er mwyn sicrhau hyblygrwydd yn ein cynllun. Efallai y byddwn hefyd am gynnwys dogfennaeth arall wrth i ni ddatblygu yn y cyfnod adrodd hwn.

| Rhif | Ymrwymiadau diwygiedig (cynllun 2020) | Diweddariad ar y terfyn amser o ran cyflawni |
|---|---|---|
| **Ein gwasanaethau craidd – cyflenwadau dŵr yfed** | | |
| 1 | Yn dilyn cyhoeddi Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr yn 2019, byddwn yn parhau i ystyried yn benodol ein dyletswydd ynglŷn â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau pan fyddwn yn cynnal ein hadolygiad llawn nesaf o'n Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr ar gyfer 2024. | 2024 |
| 2 | Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rheoleiddwyr i wella ein dealltwriaeth o'r posibilrwydd y gall ein harferion ledaenu rhywogaethau estron goresgynnol a'r goblygiadau cost posibl. | Parhaus |
| 3 | Yn diyn ein dull gweithredu TarddLe, byddwn yn parhau i gydweithredu ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid yn y trydydd sector. Bydd hyn yn rhan o'n rhaglen waith ar gyfer ein 23 o Barthau Diogelu, fel y gallwn weithio gyda'n gilydd tuag at agenda gyffredin i ostwng lefelau halogyddion megis lefelau plaladdwyr ac amonia yn yr amgylchedd, er mwyn diogelu ein cyflenwadau dŵr ac er budd bywyd gwyllt. | Parhaus |
| 4 | Byddwn yn parhau i gydweithredu â'n rhanddeiliaid i sicrhau y bydd prosesau dylunio a rheoli coedwigoedd a choetir yn gwarchod tir rhag erydu a thirlithriadau yn ogystal â chyflawni buddiannau lluosog. Wrth ddewis rhywogaethau i'w plannu, byddwn yn ystyried sut i sicrhau'r budd mwyaf i fioamrywiaeth. | Parhaus |
| 5 | Byddwn yn chwilio am gyfleoedd newydd yn ein Canolfannau i Ymwelwyr i gynnal natur ac ennyn diddordeb y cyhoedd yn yr amgylchedd naturiol. | Ar y trywydd iawn |
| **Ein gwasanaethau craidd – trin dŵr gwastraff a rheoli dŵr wyneb** | | |
| 6 | Byddwn yn cwblhau ein rhaglen fuddsoddi bresennol gwerth £60 miliwn ar gyfer 2015-2020 y cytunwyd arni ar y cyd â Cyfoeth Naturiol Cymru i wella ein gollyngiadau mewn 13 o weithfeydd trin dŵr gwastraff drwy ostwng lefelau ffosfforws, er enghraifft, er budd yr ecoleg yn y dyfroedd derbyn. | Mawrth 2021 – ar y trywydd iawn |

| | | |
|---|---|---|
| 7 | Byddwn yn parhau gyda'n hymchwil i effeithiolrwydd rhai prosesau trin newydd i leihau ffosfforws yn ein gollyngiadau. | Parhaus |
| 8 | Byddwn yn cwblhau ein rhaglen bresennol o ymchwiliadau i'n heffaith mewn 76 o gyrff dŵr mewndirol. Os cadarnheir mai ni yw'r prif reswm pam nad yw corff dŵr yn cyrraedd Statws Ecolegol Da byddwn (erbyn 2019) yn cytuno ar raglen o welliannau y dylem eu gwneud yn ystod 2020-2025. Yn ogystal â chwblhau'r rhaglen hon, byddwn yn parhau â'r gwaith hwn drwy ymchwiliadau eraill. | Wedi cwblhau |
| 9 | Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i addysgu ein cwsmeriaid ynglŷn â'r difrod y gall camddefnyddio carthffosydd ei achosi, gan gynnwys i fywyd gwyllt morol. | Parhaus |
| 10 | Byddwn yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i annog ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â'r holl bwysau sy'n effeithio ar gyrff dŵr penodol, gan gynnwys ein heffeithiau. | Parhaus |
| 11 | Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru, yn cynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ofwat a Cyfoeth Naturiol Cymru, i chwilio am ffyrdd o oresgyn rhwystrau rheoleiddiol a all ein hatal rhag mabwysiadu mwy o ddulliau yn seiliedig ar natur o ymdrin â rhai prosesau trin a gwaith rheoli dŵr wyneb. | Parhaus |
| **Addysg** | | |
| 12 | Byddwn yn parhau â'n rôl yn y gwaith o addysgu cenedlaethau'r dyfodol am bwysigrwydd yr amgylchedd dŵr, gan gynnwys ei fflora a'i ffawna. | Parhaus |
| **Newid yn yr Hinsawdd** | | |
| 13 | Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd i gynyddu ein gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a gwella effeithlonrwydd ynni ein gweithrediadau presennol. | Parhaus |
| 14 | Byddwn yn ymchwilio i'r effaith y bydd newid yn yr hinsawdd yn debygol o'i chael ar yr amgylchedd ac ecosystemau erbyn 2050 ac amlinellu ein huchelgeisiau o ran ymchwil ar gyfer 2020-25 yn ein cynllun busnes nesaf. | Parhaus |
| **Gofalu am safleoedd a warchodir** | | |
| 15 | Byddwn yn parhau i ddefnyddio "Cronfa Ddata Camau Gweithredu" Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn nodi a mynd i'r afael â phroblemau yn y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig rydym yn berchen arnynt. | Wedi'i ohirio dros dro |
| 16 | Gan barhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, byddwn yn dechrau ar ymchwiliadau i gyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig rydym yn berchen arnynt ac yn datblygu rhaglen wella i'r graddau y mae hynny'n gyson ag arfer ein swyddogaethau. | Parhaus |
| **Gweithio mewn partneriaeth** | | |
| 17 | Byddwn yn parhau i wahodd ceisiadau gan sefydliadau nid er elw am arian ar gyfer prosiectau a fydd yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr lle bydd cyrff dŵr nad ydynt yn cyrraedd Statws Ecolegol Da yn cael budd a lle mae cysylltiad sylweddol â gweithrediadau a buddiannau Dŵr Cymru. | Parhaus |
| 18 | Parhau i ystyried rôl "Cyfeillion" a grwpiau cymunedol eraill a allai fabwysiadu rhai o'n safleoedd a'n helpu i'w rheoli. | Parhaus |
| 19 | Byddwn yn parhau i wahodd ceisiadau gan sefydliadau nid er elw am arian tuag at brosiectau a fydd yn helpu i atal, lleihau, dileu neu reoli perygl rhywogaethau estron goresgynnol lle mae rhyw gysylltiad â gweithrediadau Dŵr Cymru. | Parhaus |

| Ein Pobl | | |
|---|---|---|
| 20 | Byddwn yn parhau i roi cyfle i'n holl gydweithwyr ddysgu am rwymedigaethau cadwraeth cyfreithiol Dŵr Cymru. | Wedi cwblhau |
| 21 | Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd (e.e. drwy ddulliau cyfathrebu a chystadlaethau mewnol) i harneisio brwdfrydedd ein cydweithwyr i helpu natur pan fyddant wrthi'n gwneud eu gwaith bob dydd i ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff. | Parhaus |
| 22 | Rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o'n dyletswyddau bioamrywiaeth ymhlith ein contractwyr drwy ein trefniadau cytundebol a'n proses gaffael a byddwn yn annog ein contractwyr i chwarae eu rhan er mwyn helpu i gyflawni ein dyletswydd wrth iddynt weithio ar ein rhan. | Parhaus |
| 23 | Byddwn yn parhau i rannu "Invasive Non-Native Species Identification Guide" â'n cydweithwyr a fydd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf dymhorol. | Wedi cwblhau |
| 24 | Ehangu ein Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth i bob rhan o'r busnes. Annog hyrwyddwyr i barhau â'u gwaith gwych yn ogystal â chwilio am gyfleoedd newydd i gefnogi natur. | Parhaus |
| 25 | Byddwn yn adolygu'r holl syniadau o sylwedd a ddeilliodd o'r gweithdy ar fioamrywiaeth er mwyn asesu pa mor ymarferol ydynt; eu gwerth posibl; a'u blaenoriaethu. | Parhaus |
| 26 | Wrth gaffael ein contractau nesaf ar gyfer cynnal a chadw tiroedd, byddwn yn annog y rhai sy'n cyflwyno tendrau i ystyried buddiannau bioamrywiaeth ac yn annog arferion gorau er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd. | Parhaus |
| 27 | Byddwn yn parhau i adolygu ein gweithdrefnau (rhai mewnol ac ar y cyd â phartneriaid y Gynghrair) i ffurfioli'r ffordd y dylid ystyried manteision bioamrywiaeth posibl (gan gynnwys gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd) pan gaiff cynlluniau cyfalaf eu dylunio ac, os yw'n berthnasol, y gwaith parhaus o'u cynnal a'u cadw. | Parhaus |
| 28 | Yn dilyn ein treial bioamrywiaeth ar nifer o'n safleoedd gweithredol er mwyn dangos sut y gellir cynnal natur heb danseilio diben gweithredol safleoedd nac iechyd a diogelwch ein cydweithwyr, byddwn yn datblygu Cynlluniau Rheoli Bioamrywiaeth sy'n benodol i safleoedd. | Parhaus |
| 29 | Byddwn yn parhau i goladu'r wybodaeth ecolegol, fel arolygon, sydd gennym eisoes i'n helpu i lywio ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol i gynnal a gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn chwilio am dystiolaeth o bresenoldeb y rhywogaethau neu'r cynefinoedd mewn Rhestrau Bioamrywiaeth a gyhoeddir o dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. | Parhaus |
| 30 | Yn dilyn ein gwaith gyda'n rheoleiddwyr, rydym wedi cynnwys atebion sy'n seiliedig ar fioamrywiaeth a natur yn opsiynau'r cynllun a ystyrir pan fyddwn yn datblygu ein rhaglen fuddsoddi ar gyfer 2020-2025. Fel rhan o'r gwaith hwn, gwnaethom nodi cyfleoedd posibl ar gyfer prosiectau a ysgogir gan fioamrywiaeth sy'n gysylltiedig ag arfer ein swyddogaethau, a byddwn yn adolygu'r achos dros fuddsoddi mewn pryd cyn llunio ein cynllun busnes terfynol ar gyfer 2020-2025. | Parhaus |

# Myfyrdod gan Gyfarwyddwr yr Amgylchedd

Yn unol â'n Gweledigaeth ar gyfer 2050, mae Dŵr Cymru yn awyddus i greu amgylchedd rydym yn falch i'w drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol, un a gaiff ei reoli'n gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar gyflwyno atebion ar y cyd sy'n diogelu ac yn gwella natur. Bydd y rhai sy'n darllen y Cynllun hwn yn gweld bod Dŵr Cymru yn ceisio parhau i fod yn sefydliad arweiniol sy'n cynnal bioamrywiaeth wrth i ni gyflawni ein swyddogaethau, sef cyflenwi dŵr yfed ac ymdrin â dŵr gwastraff ar gyfer ein cwsmeriaid.

Fel y nodwyd gennym yn ein Cynllun Bioamrywiaeth cyntaf, bydd llawer o'r newidiadau sydd eu hangen i wrthdroi'r dirywiad cyffredinol mewn bioamrywiaeth a nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn gofyn am ymwneud gan sawl rhanddeiliad. Ers cyflwyno'r Datganiadau Ardal o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gallwn weld ffordd ymlaen glir nawr o ran y ffordd y gall awdurdodau cyhoeddus eraill weld rhyngddibyniaeth ein holl Gynlluniau. Rydym hefyd yn falch o weld bod ein rheoleiddwyr yn cydnabod bod angen rhannu rhai o'r risgiau rheoleiddiol sy'n gysylltiedig â mabwysiadu dewisiadau amgen sy'n seiliedig ar natur i rai prosesau. Gobeithio y bydd awdurdodau cyhoeddus a grwpiau amgylcheddol eraill yn defnyddio'r Cynllun hwn i lywio eu syniadau eu hunain a chwilio am gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â ni. Bydd Dŵr Cymru yn chwarae ein rhan ond mae'n rhaid i bawb, gwneuthurwyr polisi'r llywodraeth, rheoleiddwyr, grwpiau amgylcheddol a chymunedau lleol, chwarae eu rhan hwythau hefyd er mwyn cyflawni ein camau gweithredu ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Yn 2022 byddwn yn adrodd ar ein cynnydd ac yn nodi ein dyheadau ar gyfer buddsoddiad pellach i wella bioamrywiaeth yn ein cynllun busnes ar gyfer 2024. Yn y cyfamser, byddem yn croesawu unrhyw sylwadau a allai fod gennych ar y Cynllun hwn ac, yn benodol, awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid ei wella.

**Tony Harrington**
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd

# Cyfeirnodau

**Datganiadau ardal, Cyfoeth Naturiol Cymru**
Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/?lang=cy

**Cyfarwyddeb y Cyngor 92/43/EEC dyddiedig 21 Mai 1992 ar gadw cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora gwyllt**
Ar gael yn http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/HTML/?uri=CELEX:31992L0043&from=EN

**Cyllid Cymunedol Dŵr Cymru**
Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/community-projects/community-fund

**Cyllid Amgylcheddol Dŵr Cymru**
Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/our-projects/biodiversity-fund

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**
Ar gael yn https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents

**Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006**
Ar gael yn https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/16/introduction

**Cynllun Gweithredu Adfer Natur, Llywodraeth Cynulliad Cymru**
Ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/cynllun-gweithredu-adfer-natur-cymru-2020-2021.pdf

**"PestSmart" Dŵr Cymru**
Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/our-projects/watersource/pestsmart

**Deddf Gwarchod Moch Daear 1992**
Ar gael yn https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1992/51/contents

**"GlawLif" Dŵr Cymru**
Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/our-projects/rainscape

**Rheoliad 6 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 OS 2010, Rhif 490**
Ar gael yn http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/490/pdfs/uksi_20100490_en.pdf


**Y Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd**
Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://www.ipcc.ch/

**Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016**
Ar gael yn https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy

**Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**
Ar gael yn https://www.biodiversitywales.org.uk/

**Dŵr 2050, Dŵr Cymru**
Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/about-us/our-plans/water-2050

**"Chwistrellau Chwyn" Dŵr Cymru**
Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://corporate.dwrcymru.com/cy-gb/community/environment/our-projects/watersource/pestsmart/free-weed-wiper-hire



Dŵr Cymru
Welsh Water

dwrcymru.com